

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol

Dyddiad:

11eg Gorffennaf

Presennol

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg)

Ymddiheuriadau

Sarah Jones (Pentrefelin), Jess Williams (Penmorfa), Cyngorydd June Jones, Cyngorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd),

Datgan Buddiant

Neb

Penderfyniadau

Ymddiswyddiad Cyngorydd

Adroddwyd bod y Cyngorydd Cymuned Sarah Jones, Ward Pentrefelin yn ymddiswyddo. Diolchodd Sarah i'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros ei chyfnod fel cyngorydd.

Dymuna'r Cyngor Cymuned yn dda i Sarah a diolchwyd iddi am ei chyfraniad i'r Cyngor.

Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd bod sedd wag ac i drefnu bod hysbysiad yn cael ei roi fyny.

Cynllunio

Rhif Cais: C24/0468/36/DT

Lleoliad: Ta'n y Rhos, Garndolbenmaen, LL51 9TJ

Disgrifiad: Ystafell haul arfaethedig. Dim gwrthwynebiad.

Rhif Cais: C24/0499/36/DT

Lleoliad: 8 Rhesdai Bryncir, Penmorfa, LL49 9RY

Disgrifiad: Gosod pwmp gwres hunan-sefyll Riello 6KW. Dim gwrthwynebiad.

Rhif Cais: NP2/16/97K

Lleoliad: Tŷ Canol, Garndolbenmaen, LL51 9RQ

Disgrifiad: To arfaethedig dros iard rhwng dwy sied amaethyddol bresennol. Dim gwrthwynebiad.